Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr Clogau, Afon Mawddach

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith


- Pellter: 6.5km (4 milltir)
- Hyd: 3 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

1



O’r gilfan, croeswch y ffordd yn ofalus a cherddwch i gyfeiriad Dolgellau. Trowch lawr am yr afon Fawddach wrth yr arwydd llwybr cyhoeddus tuag at dŷ o’r enw Rhuddallt. Ewch i’r chwith o flaen y tŷ trwy giât fechan i gyfeiriad yr afon.

2




Ar waelod y llwybr ewch i’r dde trwy’r giât a pharhau i gerdded ar hyd yr aber gan fynd trwy giât arall a dilyn y clawdd llanw. Croeswch y bont dros y ffos ac ewch ymlaen nes cyrraedd afon Cwm Llechen sy’n llifo drwy’r pentref.

3



Ewch drwy giât fechan a chadwch i’r chwith gan ddilyn yr afon ac ymuno â’r lôn i fyny am bentref Bontddu. Wrth gyrraedd y ffordd fawr, croeswch y ffordd a throwch i’r chwith. Cerddwch lawr i waelod y pentref, heibio rheiliau metel am 50m nes gweld arwydd ‘Dim Ffordd Trwodd’ a ‘WC’. Dilynwch y llwybr tarmac serth hwn i fyny i’r dde heibio’r rhes o dai.

4




Cymerwch ofal yn fan hyn! Mae’r ceunant yn serth a llif yr afon yn gryf. Cadwch ar y llwybr dan gysgod y coed derw. Fe ddowch yn y man at bont Figra. Sylwch ar olion yr hen waith trin mwyn. Cerddwch dros y bont, ewch drwy giât a cherddwch ymlaen ar y trac.

5



Ewch drwy’r giât a bydd fforch yn y llwybr, ewch i’r chwith o gwmpas y cae.

6



Ar ôl mynd drwy’r giat mochyn, cerddwch i’r dde a dilyn y ffordd tuag at Llechfraith Isaf.

7



Yn syth heibio’r tŷ mae giât fetel i’r chwith. Ewch drwyddi.

8



Dilynwch y llwybr i’r chwith yma. Peidiwch a mynd syth yn eich blaen. Bydd y llwybr yn esgyn yn raddol tuag at hen weithfeydd aur Clogau. Ewch heibio’r twmpathau rwbel tuag ar y cwm nesaf, Cwm Mynach.


9



Ar ôl cerdded ar yr hen inclein byddwch yn cyrraedd fforch yn y llwybr, ewch i’r chwith gan fynd drwy fwlch yn y wal. Cerddwch i’r chwith ac ymlaen drwy’r tir corsiog gan gadw’r wal yn eithaf agos atoch ar y dde, byddwch yn cyrraedd arwyddbost yng nghanol cae pori mynyddig.




O'r arwyddbost, cerddwch i lawr am y wal, trwy giât ac i lawr at dŷ Garth Gell. O'ch blaen mae mynydd y Garn, a'r Diffwys ar y chwith.




Parhewch ymlaen i lawr ar hyd y trac gan fynd i'r dde heibio wyneb y tŷ a thrwy'r giât. Llwybr caniataol yw'r darn hwn a cheir caniatâd ar yr amod nad oes unrhyw un yn aflonyddu ar y stoc. Gofynnwn i chi gadw eich ci ar dennyn yn fan hyn a lle bynnag y bo anifeiliaid yn pori.




Fe ddowch at dro pedol ar y llwybr hwn. O'ch blaen fe welwch giât mochyn, Ewch trwy'r giât, trowch i'r dde a cherdded i fyny'r llethr at y tir coediog lle mae giât yn eich arwain i Warchodfa Natur Coed Garth Gell.




Mae'r llwybr yn eich tywys trwy'r warchodfa lle mae golygfeydd ysblennydd i'w cael o aber yr afon Fawddach, Cader Idris, Aran Fawddwy, Aran Benllyn a'r Rhobell Fawr. Parhewch i ddilyn y llwybr a cyn hir fe fydd giât fechan yn y wal ar y dde.




Ar ôl dilyn y llwybr i lawr, fe ddowch at fforch amlwg. Cadwch i'r dde gan barhau'n raddol i lawr drwy'r coed. Byddwch yn mynd heibio corlannau newydd sy'n rhan o gynllun pori'r RSPB. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr. Mae giât yn y wal ar y chwith, ewch trwyddi gan droi i'r dde ar y ffordd darmac sydd yn arwain yn ôl i lawr i'r maes parcio.